# Logo a brand - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad
Gweithgaredd dosbarth i archwilio gwerth a phwrpas creu brand busnes gyda thasg cyflwyno strwythuredig.

## Paratoi
Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o 2-3.

Argraffwch y siart gwerthuso logo – un i bob grŵp.

Argraffwch y dasg cyflwyno – un i bob dysgwr.

Argraffwch y cwestiwn map meddwl – athro yn unig.

## Adnoddau
Siartiau gwerthuso logo

Tasgau cyflwyno

Ysgrifbinnau/pensiliau

Adnoddau TG (ar gyfer y dasg cyflwyno)

## Geirfa
Brand, logo, busnes, slogan, cwsmeriaid, hunaniaeth

## Cyflwyniad/cyd-destun
Yn dilyn stori Taith Dylan i'r Ffair Fusnes, ehangwch ar gysyniad a geirfa brand a logo.

- Beth yw brand?
  - Mae gan fusnesau eu hunaniaeth eu hunain a hyd yn oed personoliaeth!
  - Pan fyddwch yn dechrau busnes, gallwch ddewis rhoi enw iddo.
  - Pan nad ydych yn dymuno gweithio yn y busnes mwyach, gallwch ei werthu, neu ei roi i rywun neu adael i rywun arall fod yn gyfrifol amdano.
  - Gall barhau heboch chi oherwydd bod ganddo ei hunaniaeth ei hun.
  - Y brand yw ei hunaniaeth. Mae pobl yn meddwl yn ofalus iawn am sut i greu'r brand er mwyn i'w cwsmeriaid fod yn fwy tebygol o brynu ohono.
- Beth yw logo?
  - Logo yw symbol neu ddelwedd y mae'r busnes yn ei dewis.
  - Y ddelwedd hon yw'r hyn y maen nhw'n gobeithio y bydd eu cwsmeriaid yn ei hadnabod.
  - Maen nhw eisiau i'w logo roi teimlad da i'w cwsmeriaid am eu busnes.

| Amser 5-10 munud | **Dod o hyd i logos**<br>Mewn grwpiau o 3-4, anfonwch y dysgwyr i chwilio am logos. Gofynnwch iddyn nhw ddewis 3 logo maen nhw'n eu hoffi a dod â nhw i'w bwrdd. |
|---|---|
| Amser 10-15 munud | **Gwerthuso logos**<br>Dosbarthwch y siartiau gwerthuso logos er mwyn i'r dysgwyr eu llenwi fel grŵp. |

# Logo a brand - Cynllun gweithgaredd

| Amser | |
|---|---|
| 10–20 munud | **Trafodaeth dosbarth**<br>Fesul grŵp, gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno eu gwerthusiadau'n anffurfiol. |
| 20–30 munud | **Map meddwl brand**<br>Fel dosbarth dewiswch un busnes adnabyddus i archwilio ei frand.<br>Ysgrifennwch enw'r busnes a'r brand yng nghanol y bwrdd.<br>Penderfynwch, fel dosbarth pa elfennau o fusnes sy'n rhan o'u brand (logo, enw busnes, slogan, personoliaeth, lliwiau).<br>Archwiliwch bob un o'r meysydd brand ac ychwanegwch syniadau'r dosbarth ynglŷn â'ch dewis o frand.<br>Anogwch y dosbarth gyda chwestiynau treiddgar.<br>Darparwyd cwestiynau enghreifftiol i chi. |
| 1–3 awr | **Tasg cyflwyno**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio a chyflwyno eu canfyddiadau ar frand arall. Mae'r dasg wedi ei nodi ar daflen ar wahân a gellir ei defnyddio fel tasg gwaith cartref. |

## Cwestiynau arwain i athrawon

1. Beth yw'r logo? A yw'n anifail, gwrthrych, symbol, siâp?
   - Beth mae'r ddelwedd yn ei gynrychioli?
   - Beth mae'n ein hatgoffa ohono?
2. Pa liwiau maen nhw wedi'u dewis?
   - Pam maen nhw wedi dewis y lliwiau hynny?
   - Sut mae'r lliwiau hynny yn gwneud i ni deimlo?
3. Pa mor bwysig yw enw busnes? Beth yw'r rhesymau y gallai fod yn bwysig?
   - Hawdd ei sillafu a dod o hyd iddo ar google?
   - Unigryw?
   - Dweud wrth gwsmeriaid beth maen nhw'n ei wneud?
   - Gwneud i ni feddwl am rywbeth dymunol? Hwyl? Difrifol? Iach?
4. Pam ydych chi'n meddwl eu bod wedi dewis yr enw busnes hwnnw?
   - A yw wedi'i enwi ar ôl person?
   - Oedden nhw eisiau i bawb wybod eu henw?
   - A yw wedi'i enwi ar ôl teulu?
   - Oedden nhw eisiau i bobl feddwl ei fod yn fusnes teuluol?
   - A yw wedi'i enwi'n air rhyfedd?
   - Beth mae'r gair yn ei olygu?
   - Ydyn nhw wedi newid sillafiad y gair? Pam?
   - A yw'n ddim mwy na disgrifiad o'r hyn maen nhw'n ei wneud?
5. Beth yw eu slogan?
   - Beth mae'n ei olygu?
   - Beth mae'n ei ddweud wrthych am y busnes?
6. Beth yw personoliaeth y busnes? Meddyliwch am bethau fel:
   - Eu gwerthoedd – ydyn nhw eisiau ymddangos yn ecogyfeillgar?
   - Ydyn nhw'n cefnogi elusennau?
   - Ydyn nhw'n fusnes teulu?
   - Ydyn nhw'n canolbwyntio ar y gymuned?
   - Eu hegni – ydyn nhw'n hwyl, neu'n ddifrifol?
   - Eu hansawdd – ydyn nhw'n ddrud neu'n rhad? Ydyn nhw'n cynnig gwarantau?

# Logo a brand - Adnoddau

| | Logo |
|---|---|
| Beth yw enw’r busnes? | |
| Beth yw’r cynnyrch? | |
| Beth ydych chi’n sylwi arno am liwiau’r logo? | |
| A yw’r logo yn symbol neu’n eicon? Disgrifiwch y ddelwedd. | |
| A yw’r logo yn cynnwys enw’r busnes? Disgrifiwch y ffont. | |
| Beth ydych chi’n ei hoffi am y logo? | |
| Beth nad ydych chi’n ei hoffi am y logo? | |
| Sut mae’r logo yn gwneud i chi deimlo am y busnes? | |

# Tasg Cyflwyno

Dewiswch fusnes sydd o ddiddordeb i chi a pharatowch gyflwyniad ar gyfer y dosbarth.
Bydd eich cyflwyniad yn cynnwys:

**Trosolwg o'r busnes**

- Pwy ydyn nhw?
- Beth maen nhw'n ei werthu?
- Ble maen nhw'n gwerthu? Yn eich cymuned? Ledled y wlad? Ledled y byd?

**Enw'r cwmni**

- Beth wnaethon nhw alw eu hunain a pham?

**Eu logo**

- Beth yw e?
- Beth mae i fod?

**Eu lliwiau**

- Ydyn nhw bob amser yn defnyddio'r un lliwiau?
- Ydyn nhw'n dywyll, golau, llachar, pwl?

**Eu slogan**

- Oes ganddyn nhw slogan?
- Beth yw eu slogan?
- Beth mae'n ei olygu?

**Eich barn ar y dewisiadau brand maen nhw wedi'u gwneud**

- Ydych chi'n ei hoffi?
- Ydych chi'n meddwl ei fod yn gwneud i bobl eisiau prynu eu cynnyrch?
- Ydy e'n eu helpu i gael eu hadnabod yn dda?
- Unrhyw farn arall sydd gennych.

Dylech gynnwys 6 sleid, un ar gyfer pob un o'r meysydd uchod.

**Awgrymiadau Cyflwyno!**

Dylech ysgrifennu cyflwyniad **ac** araith.

Dylai eich araith fod yn rhywbeth yr ydych wedi'i ymarfer a'i ddeall yn dda iawn.

Dylai fod gan eich sleidiau ymadroddion neu frawddegau byr. Dim gormod o eiriau!

Ceisiwch beidio â darllen eich araith o ddarn o bapur, yn hytrach defnyddiwch y geiriau ar y sleid i'ch atgoffa o'r hyn yr ydych am ei ddweud.

Dylai cyflwyniadau fod yn wahanol bob tro y byddwch yn eu gwneud oherwydd eich bod yn siarad, nid yn darllen. Felly, peidiwch â phoeni ei fod yn berffaith.

Mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â'r hyn yr ydych **chi** yn ei feddwl, eich syniadau chi a'ch barn chi. Mynegwch eich hun.

Ceisiwch symud o gwmpas wrth gyflwyno eich cyflwyniad. Mae'n helpu gyda'r nerfau ac yn gwneud i chi edrych yn fwy cyfforddus.

Ceisiwch edrych ar y bobl yr ydych yn cyflwyno iddyn nhw mor aml ag y gallwch.

Mae gan bawb arddull gyflwyno wahanol. **Dewch o hyd i'ch un chi a'i dathlu!**